# Awdurdod Parc Cenedlaethol

## 11 Rhagfyr 2024

**Yn bresennol (yn bersonol)**
Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd T Evans, Cynghorydd C George, Cynghorydd SL Hancock MBE, Dr M Havard, Mr GA Jones, Dr R Plummer, Cynghorydd A Tinley, Cynghorydd V Thomas a'r Cynghorydd M Wiggins.

**Yn bresennol (o bell)**
Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Hefyd yn bresennol:**
Kate Attrill (Rheolwr Rheoli Datblygu), Catrin Evans (Pennaeth Cyllid a Chodi Arian), Charles Felgate (Cyfreithiwr yr Awdurdod), Emma Gladstone (Rheolwr Polisi Strategol), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Michael Kent (Swyddog Monitro), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Jessica Morgan (Pennaeth Datgarboneiddio), Sara Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), Graham Peake (Arweinydd Tîm Dysgu a Chynhwysiant) ac Emma Thornton (Croeso Sir Benfro).

[Ymunodd y Cynghorydd M Wiggins â'r cyfarfod cyn ystyried adroddiad 47/24, Diweddariad ar yr Ymgynghoriad Gwersylla a Charafanau.]

[Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell
10.00am – 11.25am; 11:30am - 2:45pm]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr B Price ac S Skyrme-Blackhall.

**2. Datgan Buddiannau**
Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, fel Cadeirydd ei Bwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig ac fel Uwch Aelod o Banel Annibynnol Llywodraeth Cymru. Datganodd y Cynghorydd V Thomas fuddiant personol yn adroddiad 47/24, Diweddariad ar yr Ymgynghoriad Gwersylla a Charafanau. Datganodd Mrs J James fuddiant personol yn Adroddiad 56/24, Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2024 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Ar gynnig Mrs J James, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock, **penderfynwyd** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2024 a'u llofnodi heb unrhyw ddiwygiadau.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

O ran eitem 961 gofynnodd Aelod am i ddyddiadau gael eu pennu ar gyfer cyfarfodydd y Gweithgor Cynhyrchu Incwm yn y dyfodol, a nodwyd hyn gan y Swyddogion.

Tynnodd Aelod sylw at y ffaith bod camau gweithredu sy'n ymwneud â 3 eitem (y Cynllun Dirprwyo, y Polisi Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a'r Polisi Rheoli a Chadw Cofnodion) o'r cyfarfod blaenorol wedi'u hepgor o'r log gweithredu, a gofynnwyd i'r rhain gael eu hychwanegu i ddiweddaru'r Aelodau ar eu cynnydd. Nodwyd hyn gan y Swyddogion.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r cyfarfodydd/ digwyddiadau canlynol;

- Seminar Aelodau Awdurdodau Cymru. Diolchodd y Cadeirydd i bawb a gyfrannodd at y digwyddiad ac i Gyngor Tref Dinbych-y-pysgod am gynnal Derbyniad Diodydd fel rhan o'r Seminar.
- Gwobrau Croeso Sir Benfro lle enillodd Castell Caeriw y wobr am yr 'Atyniad Gorau.' Llongyfarchodd y Cadeirydd y tîm a chadarnhau y byddai Castell Caeriw, fel yr Enillwyr, yn mynd ymlaen i Wobrau Rhanbarthol y De-orllewin, ac wedyn i Wobrau Cenedlaethol Croeso Cymru yng ngwanwyn 2025.
- Cyfarfod gyda Phartneriaeth y Parciau Cenedlaethol lle trafodwyd materion megis cyllid.
- Cyfarfod y Cyd-gyngor Corfforaethol lle pleidleisiodd y mynychwyr i ohirio cyhoeddi'r Cynllun Datblygu Strategol oherwydd diffyg adnoddau.
- Cyfarfod gyda Clare Dowe, Cadeirydd Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, lle trafodwyd gweithio mewn partneriaeth a'r heriau a wynebir gan yr Awdurdod.
- Cyfarfod ar-lein gyda Huw Irranca-Davies, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, lle trafodwyd cyllid a'r ardoll ymwelwyr.

Dywedodd y Cadeirydd bod yr Awdurdod wedi ennill y statws 'Hyderus o ran Anabledd'. Cadarnhaodd hefyd bod oedi wedi bod yn y broses o Recriwtio Aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru, a bod disgwyl i'r broses honno ddechrau yn gynnar yn 2025.

**Nodwyd.**

**6 . Adroddiadau o gyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau er ystyriaeth/ gwybodaeth:

i) Panel Penodiadau y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 31/07/2024 ac ar 20/11/2024;
ii) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 31/07/2024;
iii) Fforwm Gwirfoddolwyr a gynhaliwyd ar 06/11/2024.

**Penderfynwyd** derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

**7. Diweddariad ar yr Ymgynghoriad Gwersylla a Charafanau**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu ac i'r Rheolwr Polisi Strategol a gyflwynodd adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) effaith heb fod yn ddi-oed i ddileu hawliau datblygu a ganiateir i ddefnyddio tir ar gyfer gwersylla, carafanau a/neu gartrefi symudol am ddim mwy na 28 diwrnod, ac i Swyddogion baratoi Cod Ymddygiad/ Protocol Gweithio gwirfoddol ar gyfer Sefydliadau Eithriedig. Hefyd roedd yr adroddiad yn cyflwyno gwybodaeth i'r Aelodau o ganfyddiadau'r ymgynghoriad ar y mater.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd ynghylch y safleoedd a ddadleolir a chapasiti'r staff i orfodi'r mesurau hyn, a rhoddodd y Swyddogion y sicrwydd hwnnw. Hefyd cadarnhaodd Cyfreithiwr yr Awdurdod na chodir tâl am geisiadau cynllunio ôl-weithredol a gyflwynir o ganlyniad i'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 arfaethedig.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch pa mor ymarferol yw gweithredu'r mesurau hyn. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog y byddai'r ceisiadau hyn yn cael eu rhoi ar y trywydd cyflym ac y byddai caniatâd aml-flwyddyn yn cael ei ystyried (fesul achos) i leihau nifer y ceisiadau a gyflwynir. Ychwanegodd y byddai amodau cynllunio yn cael eu defnyddio i rwystro codi strwythurau mwy parhaol.

Roedd Aelod o'r farn bod angen mwy o wybodaeth ar yr Asesiad o'r Iaith Gymraeg yn yr adroddiad cyn ei gyhoeddi, ac y byddai'n cysylltu'n uniongyrchol â'r Swyddogion i gynnig cymorth. Nododd y Swyddog yr awgrym hwn.

Cafwyd trafodaeth ynghylch adolygiad o'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 arfaethedig yn y dyfodol, a chytunwyd y dylid cynnal adolygiad ymhen blwyddyn ar ôl ei weithredu. Ychwanegodd Cyfreithiwr yr Awdurdod y byddai'n ofynnol i'r Swyddogion roi gwybod i Weinidog Cymru, allai hefyd alw am adolygiad, pe bai'r Erthygl 4 arfaethedig yn cael ei chymeradwyo.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock, **penderfynwyd**;

i) gwneud a rhoi cyhoeddusrwydd i Gyfarwyddyd Erthygl 4 (1) i ddileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gwersylloedd rheol 28 diwrnod gydag effaith heb fod yn ddi-oed fel y nodir yn y Papur Cefndir Atodiad C.

ii) cymeradwyo bod swyddogion i baratoi Cod Ymddygiad / Protocol Gweithio ar gyfer Sefydliadau Eithriedig fel y nodir yn y Papur Cefndir Atodiad C.

iii) cyhoeddi Asesiad Effaith Integredig cam 2 yn Atodiad B Rhan 1 a Rhan 2 ar yr un pryd er gwybodaeth.

iv) bod yr adroddiad Ymgynghori (Atodiad A), Hysbysiad drafft a Chyfarwyddyd Erthygl 4 (Atodiad D), protocol gweithio ar gyfer ceisiadau llwybr carlam a gyflwynir yn dilyn Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) (Atodiad E) a Nodyn Cyngor i ymgeiswyr (Atodiad F) yn cael eu cymeradwyo.

[Gadawodd Cyfreithiwr yr Awdurdod y cyfarfod yr adeg hon.]

**8. Adroddiad Adolygu Drafft ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) 2**

Cyflwynodd y Rheolwr Polisi Strategol adroddiad oedd yn cyflwyno gwybodaeth i'r Aelodau o ganfyddiadau'r Adroddiad Adolygu CDLl 2 drafft, a gofynnodd am gymeradwyaeth i ymgynghori ar y ddogfen. Roedd yr adroddiad yn cynnwys rhagor o wybodaeth gefndir a rhaglen arfaethedig. Mewn ymateb i gwestiwn, roedd y Swyddog wedi amlinellu proses yr adolygiad, a'r rhanddeiliaid yr ymgynghorir â hwy.

Awgrymodd Aelod y dylid cynnwys cyfeiriad at yr effaith ar fywyd gwyllt yn yr adran Llygredd Golau. Dywedodd bod angen rhagor o fanylion am ystyriaethau'r Gymraeg gan nad oedd yr adroddiad yn amlygu Safonau'r Gymraeg. Yn olaf, awgrymwyd y dylid cyfeirio at y Cyd-Bwyllgorau Corfforaethol yn yr adran ar y 'Cyfleoedd ar gyfer Cydweithio a Gweithio ar y Cyd'. Nododd y Swyddog y 3 awgrym a chytunodd i wneud y newidiadau hyn.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan Dr M Havard, **penderfynwyd**;

i) cymeradwyo'r Adroddiad Adolygu Drafft (Atodiad A) ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

ii) dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu i wneud mân newidiadau oedd eu hangen i'r Adroddiad Adolygu cyn ymgynghori.

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.25am a 11:30am]

**9. Hyrwyddo Gwasanaeth Cynllunio Cydnerth sy'n Perfformio'n Dda**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu adroddiad oedd yn amlinellu ymgynghoriad cyfredol Llywodraeth Cymru (LlC) ar adnoddau

cynllunio. Roedd yr adroddiad yn nodi'r prif faterion a glustnodwyd a’r ymateb a argymhellir, yn amodol ar gefnogaeth yr Aelodau.

Dywedwyd mai un o'r prif faterion a glustnodwyd yn yr ymgynghoriad fel mecanwaith i wella cydnerthedd a pherfformiad oedd cynyddu’r ffioedd a godir ar geisiadau cynllunio dros gyfnod graddol o 3 blynedd, er mwyn dychwelyd i adennill y costau yn llawn. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chodi’r ffioedd yn raddol a gynigir, a'r sefyllfa anodd y byddai hyn yn ei olygu i'r Awdurdod wrth i’r Awdurdod barhau i gymorthdalu cost y gwasanaeth cynllunio. Roedd sawl Aelod o blaid cymryd y camau hyn yn ddi-oed er mwyn adennill costau cyn gynted â phosibl.

Roedd rhai Aelodau hefyd yn bryderus ynghylch codi ffioedd am apeliadau ac am gais cynllunio gan ddeiliaid tai gan awgrymu ffyrdd y gellid mynd i'r afael â'r materion hyn, a chytunodd y Swyddogion i dalu sylw i hyn fel rhan o'r ymateb.

Mecanwaith arall a glustnodwyd yn yr ymgynghoriad oedd mesur perfformiad. Nodwyd bod LlC yn cynnig y dylid canolbwyntio ar ystadegau perfformiad o fewn cyfnod o 8 wythnos. Fodd bynnag eglurodd y Swyddog bod Tîm Cynllunio yr Awdurdod yn ystyried y byddai 'o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt' yn ddangosydd cryfach fyddai'n amlygu cymhlethdod y system gynllunio yn well. Cytunodd sawl Aelod y byddai'n fwy buddiol canolbwyntio mwy ar safon y gwasanaeth cwsmer yn hytrach na dim ond cadw at amserlen o 8 wythnos. Mynegodd Aelod bryder ynghylch ffocysu posibl ar 'amserlenni y cytunwyd arnynt' gan y gallai hynny olygu heriau o ran meincnodi â sefydliadau eraill.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd T Evans, **penderfynwyd** awdurdodi’r Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu i ddrafftio ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Hyrwyddo Gwasanaeth Cynllunio Cydnerth sy’n Perfformio’n Dda gan gynnwys y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod. Yr ymateb i'w ddosbarthu i'r Aelodau ar gyfer sylwadau terfynol cyn i Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu ei gymeradwyo.

**10. Ymateb Drafft i'r Ymgynghoriad ar Ail-Adneuo Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Cyngor Sir Penfro (CSP) 2**

Cyflwynodd y Rheolwr Polisi Strategol adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad ar Ail-adneuo CDLl 2 CSP a'r dogfennau cysylltiedig.

Fel diweddariad llafar yn ystod y cyfarfod, gofynnodd y Swyddog am i bwynt ychwanegol gael ei ychwanegu at yr ymateb drafft i'r ymgynghoriad ynghylch gwerthoedd trosglwyddo tai fforddiadwy a datblygwyr i Landlord

Cymdeithasol Cofrestredig gan fod y ffigwr a gynhwysir yn yr ymgynghoriad yn anghyson â pholisi'r Awdurdod.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Bowen, **penderfynwyd** cymeradwyo'r Ymateb Drafft i'r Ymgynghoriad (Atodiad A) ar Ail-adneuo Cynllun Datblygu Lleol 2 Cyngor Sir Penfro.

**11. Croeso Sir Benfro**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Brif Weithredwr Croeso Sir Benfro a roddodd gyflwyniad ar waith y sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf. Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi cytuno ar becyn cymorth i Croeso Sir Benfro i roi ffocws penodol ar weithgarwch i ddatblygu sylfaen ei aelodaeth.

Holodd Aelod pa mor gynaliadwy yw'r sefydliad yn yr hirdymor, a chadarnhaodd Prif Weithredwr Croeso Sir Benfro y byddai bob amser angen arian cyhoeddus yn ei strwythur presennol. Ychwanegodd, yn dibynnu ar gyllid a chanlyniad cyflwyno'r ardoll ymwelwyr arfaethedig, y gallai Croeso Sir Benfro fabwysiadu model gwahanol i ddod yn fwy cynaliadwy.

**Nodwyd.**

**12. Maes Parcio Parrog Trefdraeth a Phrydles yr Odyn Galch**

Croesawodd y Cadeirydd y Pennaeth Datgarboneiddio a gyflwynodd adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i ildio prydles bresennol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar faes parcio y Parrog Trefdraeth a'r odyn galch, i Gyngor Tref Trefdraeth. Roedd yr adroddiad yn egluro bod 53 mlynedd ar ôl ar y brydles ac fel rhan o hyn, roedd yn ofynnol i'r Awdurdod atgyweirio a rheoli'r tir a thalu rhent o £268 y flwyddyn. Ychwanegwyd nad oedd unrhyw opsiynau terfynu yn y brydles a'i bod yn cynnwys cyfamod cyfyngu oedd yn gwahardd codi tâl o unrhyw fath am barcio.

Yn ogystal â'r maes parcio, dywedwyd bod y tir dan sylw yn cynnwys toiled cyhoeddus oedd dan fygythiad o gael ei gau yn barhaol gan Gyngor Sir Penfro. Eglurodd y Swyddog bod Cyngor Tref Trefdraeth yn fodlon cymryd cyfrifoldeb am y toiledau cyhoeddus, ar yr amod eu bod yn gallu cynhyrchu incwm i dalu'r costau cynnal drwy gyflwyno taliadau parcio. Am y rheswm hwn roedd yr Awdurdod yn cynnig ildio'r brydles gan y byddai hynny yn galluogi Cyngor Tref Trefdraeth i gael y caniatâd angenrheidiol i godi tâl am barcio ar y safle.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bod ildio'r brydles yn gyfle i sicrhau ac amddiffyn gwasanaeth cyhoeddus sydd dan fygythiad drwy drosglwyddo rheolaeth o un corff cyhoeddus i gorff cyhoeddus arall y gellir ymddiried

ynddo o fewn ysbryd ac egwyddor o weithio mewn partneriaeth yn y sector cyhoeddus.

Ar gynnig y Cynghorydd M James, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Havard, **penderfynwyd** rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr gwblhau'r drefn o ildio prydles yr Awdurdod yn derfynol heb bremiwm llawn ar yr eiddo dan sylw i Gyngor Tref Trefdraeth ar yr un pryd â Chyngor Tref Trefdraeth yn prynu rhydd-ddaliad yr eiddo dan sylw.

**13. Caffi Oriel y Parc (OYP).**

Amrywiodd y Cadeirydd drefn yr agenda i gymryd yr eitem atodol hon ar yr agenda tra bod y Swyddogion perthnasol yn bresennol. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar y camau a gymerwyd i gynnal parhad yn yr arlwy yng nghaffi OYP. Eglurodd bod gweithredwr blaenorol y caffi wedi gwneud y penderfyniad i beidio ag ymestyn eu prydles ar y caffi, ac felly yn dilyn proses dendro, roedd yr Awdurdod wedi rhoi prydles blwyddyn i weithredwyr newydd. Ychwanegodd mai cyfrifoldeb y cynigydd llwyddiannus fyddai buddsoddi mewn seilwaith newydd, fel y nodwyd yn y tendr. O ganlyniad i hyn, roedd yr Awdurdod yn cynnig prydles o 15 mlynedd i roi lefel o sicrwydd i'r gweithredwyr newydd, o ystyried maint y buddsoddiad fyddai ei angen ar eu rhan.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â gwerth y brydles, a chadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y gwerth yn seiliedig ar werth y farchnad. Ychwanegodd bod y brydles yn cynnwys cymalau terfynu bob 5 mlynedd i ganiatáu i'r Awdurdod adolygu'r cytundeb, ac y byddai cymal yn cael ei gynnwys yn y brydles i ganiatáu ar gyfer datrys yn anffurfiol unrhyw faterion allai godi.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch hyd y brydles arfaethedig, a holwyd a allai hyn achosi unrhyw rwystrau posibl yn y gwaith o ddatblygu safle OYP ymhellach. Cadarnhawyd bod y gweithredwyr newydd yn ymwybodol o'r Prif Gynllun ar gyfer OYP, a rhoddodd y Swyddogion sicrwydd i'r Aelodau y byddai'r brydles yn cynnwys cymal terfynu i ddiogelu'r naill ochr a'r llall.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock, **penderfynwyd** rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr gwblhau'r trafodaethau gyda gweithredwyr newydd caffi Oriel y Parc ar y brydles newydd a'r dogfennau cysylltiedig.

**14. Polisi Diogelu**

Roedd yr Arweinydd Tîm Dysgu a Chynhwysiant wedi cyflwyno adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i Bolisi Diogelu yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r newidiadau i'r polisi ers y tro diwethaf i'r polisi fynd gerbron yr Aelodau.

Mynegodd un Aelod bryder am rai agweddau o'r polisi, ac awgrymodd y dylid cynnwys cyfeiriad at weithdrefnau'r Awdurdod o ddelio â phlant sydd ar goll. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod gan pob safle yr Awdurdod weithdrefnau yn eu lle pe bai plentyn yn mynd ar goll, a chytunodd i ddosbarthu copi o'r gweithdrefnau hyn i'r Aelodau.

Oherwydd y pryderon a fynegwyd, gofynnwyd am ail-eirio'r polisi.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Wiggins, **penderfynwyd** diwygio'r polisi i gynnwys awgrymiadau'r Aelodau a'i gyflwyno i gyfarfod nesaf yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w gymeradwyo.

**15. Grŵp Rhanddeiliaid Oriel y Parc (OYP)**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad oedd yn gofyn i'r Aelodau ethol dau gynrychiolydd i fod yn rhanddeiliaid mewn ymgynghoriadau ynghylch datblygu Prif Gynllun OYP ymhellach.

Dywedwyd bod y Cynghorydd S Hancock wedi mynegi diddordeb i fod ar y Grŵp Rhanddeiliaid. Yn ogystal, mynegodd y Cynghorydd T Evans a Mr G Jones ddiddordeb mewn dod yn eilyddion i'r grŵp.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd** ethol y Cynghorydd S Hancock yn gynrychiolydd i fod yn rhan o'r trafodaethau i ddatblygu Prif Gynllun Oriel y Parc, gyda'r Cynghorydd T Evans a Mr G Jones yn eilyddion.

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 13:50 – 14:05]

**16. Polisi Teithio i'r Aelodau**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y Polisi Teithio diwygiedig i'r Aelodau i'w gymeradwyo. Dywedodd y Swyddog bod cais wedi'i wneud gan Aelod yn gynharach yn y flwyddyn i'r polisi gael ei adolygu. Roedd y polisi wedi'i ddosbarthu wedyn i bob Aelod am sylwadau, a derbyniwyd 4 ymateb. Cadarnhaodd y Swyddog bod y polisi wedi'i ddiwygio yn sgîl y sylwadau a dderbyniwyd.

Awgrymodd Aelod bod y cyfraddau sy'n ymwneud â rhannu ceir a chynhaliaeth yn cael eu hepgor o'r polisi, a gofynnodd am eglurhad ar y wybodaeth ynghylch llety fel y nodir yn adran 9. Cytunodd y Swyddog i ddileu'r cyfraddau ac aralleirio'r wybodaeth dan sylw.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan Mrs J James, **penderfynwyd** cymeradwyo'r Polisi Teithio diwygiedig i'r Aelodau gyda'r diwygiadau uchod.

## 17. Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad oedd yn manylu ar y broses a gynhaliwyd i lenwi'r lle gwag ar Bwyllgor Safonau yr Awdurdod.

Awgrymodd Aelod, gan y gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo argymhelliad Panel Penodiadau'r Pwyllgor Safonau, y byddai bywgraffiad byr o'r ymgeisydd a argymhellwyd yn ddefnyddiol i sicrhau bod gan yr Aelodau ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad. Cytunodd y Prif Weithredwr i ystyried a ellid rhoi mwy o wybodaeth yn y dyfodol.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr M Havard, **penderfynwyd** penodi Mr John Hogg ar y Pwyllgor Safonau am gyfnod o bum mlynedd o'r 11 Rhagfyr 2024 ac yn unol â'r telerau a'r amodau a nodir yn Atodiad 1.

## 18. System Gyllid Newydd

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian adroddiad oedd yn amlinellu cynnig i gaffael system gyllid newydd ac uwchraddio meddalwedd EPOS ar gyfer yr Awdurdod. Dywedwyd bod y cais o ganlyniad i adolygiad oedd wedi clustnodi risg sylweddol o fethiant i'r systemau cyllid allweddol.

Trafododd yr Aelodau lefel y risg dan sylw, ac awgrymwyd y dylid cynnal adolygiad o risgiau eraill TG a'u hystyried fel rhan o'r Gofrestr Risg a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio, a nodwyd hyn gan y Swyddog.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r effaith ariannol o fabwysiadu system gyllid newydd, a chadarnhaodd y Swyddog bod costau wedi eu hystyried fel rhan o'r broses benderfynu, a'r farn oedd mai'r system arfaethedig fyddai'r opsiwn mwyaf cost effeithiol oedd â'r potensial o arbed arian i'r Awdurdod yn y tymor hir.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd V Thomas, **penderfynwyd**:

i) cymeradwyo caffael system gyllid newydd,
ii) cymeradwyo uwchraddio'r system EPOS bresennol.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn (cyn belled ag y cynhwysir y newidiadau sy'n dilyn) yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 05 Chwefror 2025:

O ran cofnod 15, 4 Aelod mewn gwirionedd sydd wedi'u penodi ar Grŵp Rhanddeiliaid Oriel y Parc: y Cynghorydd S Hancock a Dr M Havard fel cynrychiolwyr, a'r Cynghorydd T Evans a G Jones fel dirprwyon.